



# Rhaglen Gyflawn

Gwasanaethau Democraidd  
Swyddfa'r Cyngor  
CAERNARFON  
Gwynedd  
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR IAITH**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD IAU, 18FED MEHEFIN, 2015**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda - Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon, LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**[maireirianroberts@gwynedd.gov.uk](mailto:maireirianroberts@gwynedd.gov.uk)**

(Dosbarthwyd 12/06/15)

## **PWYLLGOR IAITH**

### **AELODAETH (15)**

#### **Plaid Cymru (7)**

Y Cynghorwyr

Craig ab Iago  
Alan Jones Evans  
Sian Gwenllian  
R. Hefin Williams

Elwyn Edwards  
Gweno Glyn  
Charles Wyn Jones

#### **Annibynnol (4)**

Y Cynghorwyr

Thomas G. Ellis  
Eirwyn Williams

Eric M. Jones  
Elfed Williams

#### **Llais Gwynedd (3)**

Y Cynghorwyr

Alwyn Gruffydd

[2 sedd wag]

#### **Llafur (1)**

[sedd wag]

### **Aelodau Ex-officio**

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

### **Aelod arall a Wahoddir**

Y Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet – Y Gymraeg

# R H A G L E N

## 1. CADEIRYDD

Ethol Cadeirydd am 2015/16.

## 2. IS-GADEIRYDD

Ethol Is-gadeirydd am 2015/16.

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 5. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryd ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 6. COFNODION

1 - 6

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 23 Ebrill, 2015 fel rhai cywir (ynghlwm).

## 7. ADRODDIAD YR AELOD CABINET - Y GYMRAEG

Ystyried adroddiad llafar yr Aelod Cabinet – Y Gymraeg.

## 8. SAFONAU'R GYMRAEG - YMGYNGHORI AR YR HYSBYSIADAU CYDYMFFURFIO

7 - 8

Ystyried adroddiad y Rheolwr Aelodau – Gwasanaeth Democraidd (a laith) (ynghlwm).

## 9. ADRODDIAD BLYNYDDOL AR Y CYNLLUN IAITH 2014-15

9 - 36

Ystyried adroddiad y Rheolwr Aelodau – Gwasanaeth Democraidd (a laith) (ynghlwm).

**10. GWAITH YMCHWIL TRYWYDD I DDEFNYDD ANFFURFIOL O'R GYMRAEG YN YSGOLION UWCHRADD Y SIR** 37 - 40

- (a) Cyflwyno Crynodeb Gweithredol Trywydd (ynghlwm).
- (b) Derbyn cyflwyniad ar ganfyddiadau'r gwaith ymchwil.

**11. PENODIADAU PWYLLGOR SAFONAU** 41 - 44

Ystyried adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol (ynghlwm).

**12. CWYNION IAITH** 45 - 46

Ystyried adroddiad Swyddog Datblygu Iaith Gwynedd (Gweithle) (ynghlwm).

---

## PWYLLGOR IAITH, 23.04.15

---

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Gweno Glyn (Cadeirydd).

**Y Cynghorwyr:** Craig ab Iago, Tom Ellis, Alan Jones Evans, Alwyn Gruffydd, Siân Gwenllian, Charles Wyn Jones, Eric Merfyn Jones, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gruffydd Williams a Hefin Williams.

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorwyr Ioan Thomas (Aelod Cabinet – Y Gymraeg) a Mair Rowlands (Aelod Cabinet – Plant a Phobl Ifanc).

**Swyddogion:** Debbie Williams Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democrataidd (a Iaith)), Ian Jones (Uwch Reolwr Datblygol) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriad:** Y Cynghorydd Elwyn Edwards.

### 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

### 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 29 Ionawr, 2015 fel rhai cywir.

### 3. CYFLWYNIAD GWASANAETH

Derbyniwyd cyflwyniad gan yr Uwch Reolwr Datblygol ar y defnydd o'r Gymraeg o fewn canolfannau hamdden Gwynedd. Ymhelaethwyd ar y gweithlu, marchnata, hysbysebu, y defnydd o gyfryngau cymdeithasol a gwefan newydd y Cyngor, y dyfodol, modelau rheolaethol a heriau allweddol.

Cafwyd trafodaeth o gwmpas y cwestiynau / sylwadau canlynol gan aelodau:-

- Yr angen i wneud yn glir i staff y canolfannau hamdden bod rhaid i unrhyw bosteri, ayb, a osodir ar y byrddau hysbysebu cymunedol fod yn ddwyieithog, neu'n Gymraeg yn unig.
- Y ffaith nad yw'r feddalwedd yn caniatáu i ffrwd gwybodaeth y Cyngor ar Trydar ymddangos yn Gymraeg yn gyntaf.
- Yr angen i ddarganfod faint o'r 296 o staff y gwasanaeth sy'n siarad Cymraeg yn gwbl rugl a chytunodd yr Uwch Reolwr Datblygu fod hyn yn fater i edrych i mewn iddo.
- Y defnydd o'r Gymraeg yng nghaffis y canolfannau hamdden.
- Y gofynion ieithyddol wrth ymgeisio am swyddi yn y canolfannau hamdden.
- Yr angen i sicrhau bod grwpiau a chlybiau chwaraeon sy'n llogi'r canolfannau hamdden hefyd yn cynhyrchu llythyrau i rieni, taflenni gwybodaeth, ayb, yn ddwyieithog. Awgrymwyd cysylltu â'r canolfannau i holi pa fathau o grwpiau sy'n llogi'r cyfleusterau a beth yw eu polisiâu gan gynnig cefnogaeth iddynt drwy Hunaniaith. Cytunodd yr Uwch Reolwr Datblygol i drafod y mater ymhellach gyda'r Rheolwr Gwasanaeth Democrataidd (a Iaith).

- Y defnydd o derminoleg anodd. Nodwyd na ddymunid gweld pobl yn peidio defnyddio'r Gymraeg oherwydd nad yw'r derminoleg ganddynt a bod siarad Cymraeg, gan ddefnyddio rhai termau Saesneg, yn well na pheidio siarad Cymraeg o gwbl. I'r gwrthwyneb, pwysleiswyd ei bod yn bwysig bod y staff yn dysgu'r derminoleg yn Gymraeg a thrwy hynny'n dangos esiampl i eraill.

#### 4. ADRODDIAD YR AELOD CABINET – Y GYMRAEG

Cyflwynwyd – adroddiad llafar yr Aelod Cabinet – Y Gymraeg, yn manylu ar ddatblygiadau diweddar o fewn y maes, gan gynnwys cyfarfodydd gyda chynrychiolwyr y Cyngor ar Fwrdd Cartrefi Cymunedol Gwynedd a Phrif Weithredwr CCG, digwyddiad gyda Menter Iaith Bangor a'r bwrllwm gyda'r Siarter Iaith a'r cynnydd ar brosiectau'r Cynllun Strategol.

Trafodwyd y materion a ganlyn:-

##### (A) Gweithrediad Polisiâu Iaith

Nodwyd:-

- Y croesawid y ffaith bod yr Aelod Cabinet wedi cael cyfarfod gyda Phrif Weithredwr Cartrefi Cymunedol Gwynedd i drafod penderfyniad Bwrdd Cartrefi Cymunedol Gwynedd i beidio cynnwys y Gymraeg fel sgil hanfodol ar gyfer dwy o'i uwch swyddi, ond bod angen i'r Cyngor edrych arno'i hun hefyd, gan iddo benodi dau aelod annibynnol di-gymraeg ar y Pwyllgor Safonau'n ddiweddar.
- Bod mater y penodiadau ar y Pwyllgor Safonau wedi'i gyflwyno i'r Cyngor llawn fel 'fait accompli'.
- Nad oedd y mater CCG wedi'i ddatrys a bod angen atgoffa cynrychiolwyr y Cyngor ar wahanol gyffwrdd o bwysigrwydd cadw at y polisi iaith.

**PENDERFYNWYD anfon neges at y Swyddog Monitro yn datgan bod y pwyllgor hwn yn anfodlon gyda'r penodiadau ar y Pwyllgor Safonau a'r ffordd y cafodd y mater ei gyflwyno i'r Cyngor llawn ac yn gofyn am adroddiad i'r cyfarfod nesaf ar y broses a'r gofynion ynghlwm â phenodi aelodau annibynnol ar y pwyllgor.**

##### (B) Siarter Iaith Ysgolion Uwchradd

Mewn ymateb i ymholiad, rhoddodd y Rheolwr Gwasanaeth Democrataidd (a iaith) grynodedb byr ar gynnydd y prosiect hyd yma.

**PENDERFYNWYD gofyn i'r Rheolwr Gwasanaeth Democrataidd (a iaith) roi cyflwyniad i'r pwyllgor yn eu cyfarfod nesaf ar waith ymchwil Trywydd i ddefnydd anffurfiol o'r Gymraeg yn ysgolion uwchradd y sir, yn cynnwys amlinelliad o'r rhaglen waith a'r amserlen.**

##### (C) Ymchwiliad Craffu Addysg Gymraeg

Mynegwyd ymdeimlad o rwystredigaeth bod yr Ymchwiliad Craffu Addysg Gymraeg yn cymryd cyhyd a rhoddodd y Rheolwr Gwasanaeth Democrataidd (a iaith) amlinelliad o'r camau hyd yma a'r camau i ddod gan esbonio'r rhesymau am y llithriad. Nodwyd ei bod yn bwysig bod aelodau'r pwyllgor hwn yn cael cyfle i gyflwyno sylwadau ar argymhellion yr ymchwiliad. Nodwyd mai ymchwiliad a gomisiynwyd gan y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau ydoedd, ac y byddai modd

cyflwyno adroddiad terfynol yr Ymchwiliad Craffu Addysg Gymraeg gerbron y Pwyllgor Iaith ym mis Hydref, wedi iddo gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau ym mis Medi.

(CH) Gosodiadau Tai Cymdeithasol (mater a drafodwyd yng nghyfarfod 26 Mehefin, 2014)

Cyfeiriwyd at ymateb y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi i lythyr y Gwasanaeth Tai yn nodi sylwadau a phryderon yr aelodau (a ddosbarthwyd yn union o flaen y cyfarfod) a holwyd a fyddai modd ymchwilio i sut mae'r Tîm Opsiynau Tai yn gosod tai ac oes modd gwthio o fewn y ddeddf er mwyn creu canllawiau sy'n gryfach o ran yr amod lleol.

(D) Gwefan newydd y Cyngor

Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd yr Aelod Cabinet na ddylai unrhyw un sy'n defnyddio gwefan newydd y Cyngor gael ei gyfeirio'n awtomatig i'r ochr Saesneg, ond petai gan unrhyw aelod dystiolaeth o hynny, y byddai'n barod iawn i edrych i fewn i'r mater.

(DD) Gohebiaeth

Pwysleisiwyd pwysigrwydd rhoi'r Gymraeg yn flaenaf ar bob gohebiaeth.

(E) Y Defnydd o'r Gymraeg mewn Cyfarfodydd

Pwysleisiwyd pwysigrwydd cyfarwyddo aelodau a swyddogion i siarad yn Gymraeg mewn cyfarfodydd. Nodwyd bod yr Ymchwiliad Iaith yn edrych i mewn i'r union fater hwn.

## 5. DIWEDDARIAD AR SAFONAU'R GYMRAEG

Cyflwynwyd – adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth Democrataidd (a iaith) yn cyflwyno diweddariad ar yr amserlen a'r camau nesaf o osod gofynion Safonau'r Gymraeg ar sefydliadau.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd:-

- Nad oedd yna unrhyw gyllideb ychwanegol yn dod gyda'r gofyn i gydymffurfio â'r safonau ond bod Llywodraeth Cymru wedi ceisio amcangyfrif y gost o osod safonau ar gyrrff.
- Nad oedd y safonau'n cynnig her i Gyngor Gwynedd, ac eithrio'r her o gyflawni llawer o waith cofnodi ychwanegol, a gosod cyfundrefnau mewn lle. 'Roedd y gwaith ei hun yn digwydd yn gwbl naturiol yn y Cyngor hwn ac 'roedd hynny wedi'i gyfleu i'r Comisiynydd.
- Bod cydymffurfiad y Cyngor hwn â'i safonau ei hun yn llawer uwch na'r hyn a bennir gan y safonau newydd a rhaid sicrhau bod y Cyngor hwn yn cadw at y safonau uwch hynny.
- Bod Llywodraeth Cymru yn ystyried bod cynaliadwyedd cymunedol yn cynnwys diogelu buddiannau'r iaith Gymraeg mewn cymunedau lle ceir canrannau uchel o siaradwyr Cymraeg, ond ni wneid digon o ddefnydd o hynny i hyrwyddo'r Gymraeg yng Ngwynedd.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

## 6. CWYNIION IAITH

- (A) Cyflwynwyd – adroddiad Yr Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni ar gŵyn ynglŷn â gwendid mewn darpariaeth Gymraeg gan Cyd-Cymru y mae'r Cyngor yn cyfeirio trigolion atynt i geisio arbed costau ynni cartref.

Nodwyd ymhellach fod cwyn arall wedi dod i law ynglŷn â derbyn ffurflen Saesneg yn unig gan un o adrannau'r Cyngor. Nodwyd y disgwyliid ymateb gan y gwasanaeth ac y byddai'r gŵyn yn ymddangos yn yr adroddiad i'r cyfarfod nesaf.

### **PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

- (B) Cyflwynwyd – adroddiad yr Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni yn diweddarau'r aelodau ar y cwynion am weithrediad Cynllun Iaith Cartrefi Cymunedol Gwynedd.

Nodwyd ymhellach y byddai Prif Weithredwr Cartrefi Cymunedol Gwynedd yn cyfarfod Hunaniaith ar 1 Mai i drafod y Gymraeg a chyfleoedd i gydweithio a byddai modd i ddirprwyaeth o'r pwyllgor hwn gyfarfod gyda CCG hefyd.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd:-

- Y cafwyd addewid, ar adeg trosglwyddo stoc tai'r Cyngor i Gartrefi Cymunedol Gwynedd, y byddai'r cwmni yn cadw at Bolisi iaith y Cyngor hwn.
- Y gellid awgrymu i'r cwmni fod y personau a benodwyd i'r ddwy swydd dan sylw yn cael cefnogaeth i ddysgu'r Gymraeg.
- Bod Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a hawliau'r Comisiynydd yn y sector wirfoddol yn rhy wan.
- Nad Polisi Iaith CCG oedd y broblem, ond yr eithrio ohono a'r ffaith bod hynny'n agor y drws i gyrff eraill yn y sector wirfoddol wneud yr un peth.
- Nad oedd unrhyw un yn cynrychioli'r Cyngor hwn ar Fwrdd Cartrefi Cymunedol Gwynedd, ond yn hytrach, 'roeddent wedi'u hapwyntio gan y Cyngor i fod ar y Bwrdd yn rhinwedd y ffaith eu bod yn gynghorwyr.
- Bod dyletswydd ar y cynghorwyr hynny i adlewyrchu polisïau a safbwyntiau'r Cyngor hwn yng nghyfarfodydd cyrff allanol.

**PENDERFYNWYD aros i weld adroddiad y Comisiynydd ar ei hymwneud diweddar gyda Chartrefi Cymunedol Gwynedd cyn ystyried pa gamau pellach i'w cymryd.**

## 7. YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS AR GYNLLUN ADNAU'R CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD

Cyfeiriodd y Rheolwr Gwasanaeth Democratiaidd (a iaith) at y datganiad ar y rhaglen gan Gylch yr Iaith ynglŷn â'r Cynllun Adnau gan egluro y cafwyd cyngor cyfreithiol bod cytuno'r ymateb i'r oll o'r sylwadau ar y Cynllun Adnau wedi ei ddirprwyo yn benodol i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd gan y Cyngor hwn a Chyngor Sir Ynys Môn. Gan y Cydbwyllgor yn unig 'roedd yr hawl i ymateb yn y broses statudol ar y sylwadau hyn. 'Roedd hyn yn rhan o broses statudol ynghlwm â chynhyrchu'r Cynllun ac 'roedd ymrwymiadau cytundebol a chyfreithiol ynghlwm â'r drefn yma. Gan hynny, ni allai'r Pwyllgor Iaith ond gweithredu o fewn ei gylch gorchwyl oedd wedi'i osod yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

**PENDERFYNWYD**



- (a) Derbyn datganiad Cylch yr Iaith ynglŷn â'r Cynllun Adnau er gwybodaeth yn unig.
- (b) Cyflwyno ymateb y Cyngor i'r sylwadau ieithyddol ar y Cynllun Adnau i'r pwyllgor hwn er gwybodaeth maes o law.

**8. YMCHWILIAD IAITH – Y DEFNYDD O'R GYMRAEG MEWN CYFARFODYDD ALLANOL**

Cyflwynwyd – adroddiad yr Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni yn diweddarau'r aelodau ar waith yr ymchwiliad.

Yn ystod y drafodaeth, cyfeiriwyd at y ffaith bod rhai cynghorau cymuned yn darparu ac yn talu am wasanaeth cyfieithydd yn eu cyfarfodydd tra bo eraill yn disgwyl i siaradwyr digymraeg ddod â'u cyfieithydd eu hunain yno. Nodwyd y dylai ymgeiswyr am seddau ar gynghorau cymuned fod yn ymwybodol o bolisi iaith y Cyngor dan sylw.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 12.15pm.

# Eitem 8

<b>PWYLLGOR</b>	<b>PWYLLGOR IAITH</b>
<b>DYDDIAD</b>	18 Mehefin 2015
<b>TEITL YR ADRODDIAD</b>	Safonau'r Gymraeg – Ymgynghori ar yr Hysbysiadau Cydymffurfio
<b>ARGYMHELLIAD</b>	Gofynnir i'r aelodau: - drafod a chytuno ar y dull y dymuna'r Pwyllgor Iaith ei hun sicrhau mewnbwn i'r ymgynghoriad ar y Safonau Iaith – Hysbysiadau Cydymffurfio.
<b>AWDUR</b>	Debbie A W Jones Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (ac iaith)

## 1. CEFNDIR

1.1 Ar 9 Mehefin 2015, derbyniodd y Cyngor ohebiaeth gan Gomisiynydd y Gymraeg yn cadarnhau'r amserlen ar gyfer cychwyn y broses o ymgynghori gyda sefydliadau ar yr hysbysiadau cydymffurfio drafft, yn unol ag Adran 47 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

1.2 Mae'r cyfnod ymgynghori ar yr hysbysiad cydymffurfio yn cychwyn ar 22 Mehefin 2015, a bydd dogfennaeth bellach yn cael ei anfon at y Cyngor ar y diwrnod hwn yn amlinellu'r hyn a ddisgwylir fel rhan o'r ymgynghoriad.

1.3 Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi cyfrifoldeb y pwyllgor iaith fel a ganlyn:

*“Pennu cyfeiriad strategol a chydymffurfiaeth mewn ymateb i'r Safonau Iaith a osodir gan Gomisiynydd y Gymraeg gan roi sylw i waith y Cyngor ac unrhwy waith partneriaeth neu gydweithio”*

O ganlyniad, mae'n hollbwysig sicrhau mewnbwn y Pwyllgor Iaith i'r ymgynghoriad ar y Safonau Iaith Hysbysiad Cydymffurfio.

## 2. AMSERLEN SAFONAU'R GYMRAEG – HYSBYSIADAU CYDYMFFURFIO

2.1. Yn yr ohebiaeth a dderbyniwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg, cadarnheir yr amserlen ganlynol mewn perthynas â'r Safonau Iaith - Hysbysiadau Cydymffurfio:

22 Mehefin 2015

Cyfnod ymgynghori ar yr hysbysiad cydymffurfio yn cychwyn

20 Gorffennaf 2015

Cyfnod ymgynghori yn dod i ben. Y Comisiynydd yn dadansoddi'r ymatebion ac yn llunio hysbysiadau cydymffurfio terfynol ar gyfer bob sefydliad.

## Medi 2015

Y Comisiynydd yn gosod hysbysiadau cydymffurfio terfynol ar y 26 sefydliad (o dan Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

### **3. CAMAU NESAF**

3.1 O ystyried yr amserlen uchod, ynghyd â'r ffaith na fydd unrhyw ddogfennaeth bellach yn cael ei anfon at y Cyngor yn amlinellu'r hyn a ddisgwylir fel rhan o'r ymgynghoriad tan 22 Mehefin 2015; mae'n gynamserol i gynnal unrhyw drafodaeth ystyrlon ar yr ymgynghoriad arfaethedig yn y Pwyllgor Iaith hwn.

3.2 Yn ystod y cyfnod ymgynghori, felly, ystyrir o ochr swyddogion y Cyngor, fod mewnbwn y Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Grŵp Rheoli yn allweddol; oherwydd mai hwy fydd yn gyfrifol am ystyried unrhyw oblygiadau i weithredu'r Safonau Iaith.

3.3 Yr Aelod Cabinet sydd â chyfrifoldeb am y Gymraeg fydd yn anfon unrhyw sylwadau ar ran y Cyngor mewn ymateb i'r ymgynghoriad. Er mwyn ei gynorthywo ef – ac o ystyried cyfrifoldeb penodol y Pwyllgor Iaith fel y nodir yn y Cyfansoddiad – mae'n ofynnol sefydlu trefn er sicrhau mewnbwn y Pwyllgor Iaith.

3.4 Nid oes cyfarfod o'r Pwyllgor Iaith wedi ei raglennu o fewn y cyfnod ymgynghori a nodir gan Gomisiynydd y Gymraeg. O ganlyniad, mae 2 opsiwn posib er mwyn sicrhau mewnbwn aelodau'r pwyllgor i'r ymgynghoriad:

- i) cynnal cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Iaith cyn 20 Gorffennaf 2015
- ii) cynnull is-grŵp o'r Pwyllgor Iaith cyn 20 Gorffennaf 2015.

3.3 Caiff yr holl sylwadau a dderbynnir drwy'r fforymau a nodir uchod eu dwyn ynghyd i ffurfio ymateb terfynol y Cyngor i'r ymgynghoriad, a bydd yr ymateb hwnnw yn cael ei anfon at Gomisiynydd y Gymraeg yn enw'r Aelod Cabinet sydd â chyfrifoldeb am y Gymraeg.

### **4. ARGYMHELLION**

4.1. Gofynnir i'r aelodau:

- drafod a chytuno pa ddull y dymuna'r Pwyllgor Iaith ei hun sicrhau mewnbwn i'r ymgynghoriad ar y Safonau Iaith – Hysbysiadau Cydymffurfio.

# Eitem 9

<b>PWYLLGOR</b>	<b>PWYLLGOR IAITH</b>
<b>DYDDIAD</b>	18 Mehefin 2015
<b>TEITL YR ADRODDIAD</b>	Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun Iaith 2014-15
<b>ARGYMHELLIAD</b>	Gofynnir i'r aelodau: - dderbyn a chymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol i'w anfon at Gomisiynydd y Gymraeg erbyn 30 Mehefin 2015
<b>AWDUR</b>	Debbie A W Jones Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (ac iaith)

## 1. CEFNDIR

- 1.1 Dyma'r Adroddiad Blynyddol olaf ar y Cynllun Iaith a gymeradwywyd gan yr Is-bwyllgor a Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn 2010.
- 1.2 Mae'r Adroddiad Blynyddol yn seiliedig ar adroddiadau monitro staff ar draws holl Wasanaethau'r Cyngor a hefyd materion strategol yn codi o'r Pwyllgor Iaith.
- 1.3 Mae'r Adroddiad yn dilyn y patrwm adrodd a osodwyd yn wreiddiol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, sy'n cynnwys y gofyn i adrodd yn flynyddol ar ddangosyddion penodol (Dangosyddion Iaith Gymraeg- DIG). Mae'r dangosyddion yma'n cynnwys meysydd allweddol megis gwasanaethau dwyieithog, cwynion iaith, trefniadau trydydd parti a sgiliau ieithyddol staff.

## 2. YR ADRODDIAD BLYNYDDOL

- 2.1. Yn adran 2A) ceir grynodedb o gydymffurfiaeth a thargedau'r Cynllun Gweithredu 2010- 2013.
- 2.2. O fewn yr Adroddiad Blynyddol, rhoddir sylw penodol i'r gwaith a'r cynnydd fu ar brosiectau gyda gwasanaethau penodol.
- 2.3. Parheir i aros am ddata gan rai Adrannau i'w cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol. Disgwylir y bydd y data hwn wrth law yn fuan, ac mewn da bryd ar gyfer cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg.

## 3. ARGYMHELLION

- 3.1. Gofynnir i'r aelodau:
  - dderbyn a chymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol i'w anfon at Gomisiynydd y Gymraeg erbyn 30 Mehefin 2015.

**CYNLLUN IAITH CYNGOR GWYNEDD  
ADRODDIAD MONITRO 2014-15**

**1. Rhagair**

Dyma'r Adroddiad Blynyddol olaf a gyflwynir ar y ffurf yma ac sy'n ymateb i ddangosyddion a osodwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

Edrychwn ymlaen nawr at y Safonau Iaith, ac i barhau i ddatblygu ein hymroddiad i rymuso'r iaith Gymraeg o fewn Gwynedd a thu hwnt.

**2. Cydymffurfio a'r Cynllun Iaith Gymraeg**

Wrth ddisgwyl manylion ynglŷn â gofynion y Safonau Iaith, bu Cyngor Gwynedd yn parhau i weithredu gofynion Cynllun Iaith 2010-2013. O safbwynt Rhaglen Waith y Cynllun, gellir nodi fod amryw o'r Amcanion bellach yn weithredol, tra erys rhai fel gweithredoedd i'w datblygu ymhellach yng ngoleuni'r Safonau. Gellir crynhoi'r sefyllfa fel a ganlyn:

<b>AMCAN</b>	<b>STATWS PRESENNOL</b>	<b>CAMAU AT Y DYFODOL</b>
A.1. Byddwn yn prif-ffrydio'r Gymraeg i bolisiau, mentrau a phenderfyniadau allweddol y Cyngor drwy gryfhau a chadarnhau ein trefniadau prif-ffrydio themâu llorweddol	Trefn wedi'i sefydlu i asesu effaith posib penderfyniadau'r Cabinet ar yr iaith Gymraeg	Asesu'r angen am unrhyw newidiadau i'r drefn yn unol â gofynion y Safonau Iaith
B.1. Bydd y Cyngor yn sicrhau ein bod yn cyfleu a monitro gofynion y Cynllun Iaith fel rhan anatod o gyflwyno gwasananethau gan eraill, a bod y gofynion yma'n amod ar gyfer cytundeb, grant neu nawdd a ddyrennir gan y Cyngor	Cyflwynir y manylion isod (4(A))	Datblygu'n unol â gofynion y Safonau Iaith.
B.2. Sicrhau bod cytundebau cyd-ddarparu'n arwain at wasanaethau sy'n cydfynd â gofynion y Cynllun Iaith	Parhau i sicrhau nad yw cytundebau cyd-ddarparu'n tanseilio ein hymrwymiad parthed yr iaith Gymraeg	Datblygu'n unol â gofynion y Safonau, gan barhau i bwysu ar gyrrff eraill i edrych tu hwnt i isafswm y gofynion.

<b>AMCAN</b>	<b>STATWS PRESENNOL</b>	<b>CAMAU AT Y DYFODOL</b>
B.3. Sicrhau fod Gwasanaethau leuenctid yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg	Gweler 3A) isod	Parhau i gyd-weithio gyda'r Gwasanaeth leuenctid i hyrwyddo'r iaith Gymraeg
C.1. Bydd y Cyngor yn sicrhau a cheisio gwella yr amrediad o wasananethau o safon drwy gyfrwng y Gymraeg	Wedi cyflwyno adroddiad yn flynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ac yn ddiweddarach i Gomisiynydd y Gymraeg	Monitro cydymffurfiaeth yn unol â gofynion y Safonau Iaith
C.2. Sicrhau (yn unol â DIG2) fod staff y brif dderbynfa, canolfan gyswllt neu siop-un-stop yn gallu cynnig gwasananeth dwyieithog	Gweler 4B) isod	Parhau i sicrhau staff dwyieithog yn Siop Gwynedd a'r Ganolfan Alw
C.3. Gwarantu safon cyfieithu ac iaith y Cyngor	Uned Gyfieithu o fewn y Cyngor- ar gael i gyfieithu a chywiro. CySill ar bob cyfrifiadur	Parhau i fonitro cwynion yn erbyn safon yr iaith
C.4. Hyrwyddo'r iaith Gymraeg drwy Dechnoleg Gwybodaeth	Strategaeth TG yn ymrwmo i gofnodi darpariaeth iaith Gymraeg fel dewis diofyn lle bo'n bosib ar bob cymhwysydd Windows sy'n bodoli'n ddwyieithog	Parhau gyda'r ymrwymiad a chydymffurfio â gofynion TG y Safonau Iaith
C.5. Sicrhau a hyrwyddo dewis iaith mewn cyfarfodydd	Sicrhau cyfarfodydd Cymraeg (mewnol) a dwyieithog (cyhoeddus) ac annog staff i gyfrannu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn cyfarfodydd allanol	Parhau gyda'r ymrwymiad, gan fonitro a gweithredu ar unrhyw gwynion
CH.1. Cydymffurfio â'r gofyn i gyflwyno hunaniaeth gorfforaethol sy'n gwbl ddwyieithog ac sy'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg	Holl ddeunyddiau cyhoeddus y Cyngor yn ddwyieithog (arwyddion, papurau pennawd, ffurflenni, deunydd arddangos ayb.)	Parhau gyda'r ymrwymiad, gan fonitro a gweithredu ar unrhyw gwynion

<b>AMCAN</b>	<b>STATWS PRESENNOL</b>	<b>CAMAU AT Y DYFODOL</b>
CH.2. Sicrhau hyd eithaf ein gallu bod arwyddion ac enwau lleoedd o fewn y Sir yn adlewyrchu Cymreictod, hanes a diwylliant yr ardal	Yr amcan yn weithredol	Parhau i ddatblygu ein hymrwymiad i enwau ac arwyddion Cymraeg hyd eithaf ein gallu
D.1. Datblygu Strategaeth Sgiliau ieithyddol i staff yn seiliedig ar ganllawiau Recriwtio a'r Iaith Gymraeg Bwrdd yr Iaith	Parhau i sicrhau staff sy'n gallu'r Gymraeg yn unol â gofynion eu swyddi a'r ymrwymiad i weinyddiaeth fewnol cyfrwng Cymraeg	Datblygu'n unol a'n gofynion ynghyd â gofynion y Safonau Iaith
D.2. Darparu hyfforddiant iaith Gymraeg i staff (DIG 4a)	Mae'r gefnogaeth yn parhau i fodoli i staff ddysgu'r Gymraeg neu wella eu sgiliau a'u hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith.	Parhau gyda'r ymrwymiad o sicrhau cyfleoedd i ddysgu a gwella sgiliau ieithyddol staff
D.3. Sicrhau hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i staff (DIG4b)	Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith ar gael i staff ac Aelodau Etholedig	Hyrwyddo'r hyfforddiant fel rhan o ddarpariaeth Dysgu a Datblygu
D.4. Sicrhau fod staff yn ymwybodol o ofynion y Cynllun Iaith ac yn hyrwyddo'r iaith gyda hyder	Canllaw ar ofynion iaith i staff wedi ei lunio ac yn weithredol. Esboniad byr o ofynion y Cynllun Iaith yn rhan o'r broses anwytho	Adolygu'r trefniadau yn unol â gofynion y Safonau Iaith
D.5. Sicrhau fod cwynion yn erbyn y Cynllun Iaith yn cael eu hymdrin â hwy yn unol â safonau corfforaethol y Cyngor	Gweler 3C) isod. Cwynion yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Iaith yn ogystal	Parhau i adrodd cwynion i'r Pwyllgor Iaith, Swyddog Cwynion Corfforaethol, a Chomisiynydd y Gymraeg yn unol â gofynion y Safonau

### 3) Ansawdd Gwasanaethau Rheng Flaen

#### A) Darpariaeth Gwasanaeth Ieuentid Cyfrwng Cymraeg

Mae'r Gwasanaeth Ieuentid yn cynnal eu holl weithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg ac/neu yn ddwyieithog. Mae'n dyrannu grantiau yn flynyddol i'r Urdd a'r Ffermwyr Ifanc; sef dau fudiad sy'n cynnig gweithgareddau cyfrwng Cymraeg i bobl ifanc.

Yn ein Hadroddiadau Monitro blaenorol, cafwyd manylion y gwaith a gyflawnwyd drwy Hunaniaith i hyrwyddo'r iaith Gymraeg drwy'r Gwasanaeth Ieuentid. Lluniwyd nifer o weithgareddau er mwyn hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ymysg aelodau'r Clybiau, a gellir adrodd eto bod y cydweithio rhwng Hunaniaith a'r Gwasanaeth Ieuentid er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg yn parhau.

#### B) Siop Gwynedd

Dangosydd Perfformiad: Nifer a % swyddi'r brif dderbynbf, canolfan gyswllt a siop-un-stop a ddynodwyd yn rhai lle mae'r Gymraeg yn hanfodol a % y rhai a lenwyd gan siaradwyr Cymraeg.

Lleolir Siopau Un Stop y Cyngor yn y Pencadlys, Ffordd y Cob (Pwllheli), Penarlâg (Dolgellau)

Nifer Staff	Siaradwyr Cymraeg (nifer a %)	Cymraeg Hanfodol (nifer a %)
15	15 (100%)	15 (100%)

Y Ganolfan Gyswllt ym Mhenrhyndeudraeth sy'n ymdrin ag ymholiadau ffon, a nodir isod y manylion ynglŷn â sgiliau ieithyddol y staff:

Canolfan Gyswllt Penrhyndeudraeth

Nifer Staff	Siaradwyr Cymraeg (nifer a %)	Cymraeg Hanfodol (nifer a %)
29	29 (100%)	29 (100%)



## Gwasanaeth Cofrestru

Nifer Staff	Siaradwyr Cymraeg (nifer a %)	Cymraeg Hanfodol (nifer a %)
25	25 (100%)	25 (100%)

## Gwasanaeth Gwybodaeth

Nifer Staff	Siaradwyr Cymraeg (nifer a %)	Cymraeg Hanfodol (nifer a %)
5	5 (100%)	5 (100%)

### C) Cwynion yn Erbyn y Cynllun Iaith

DYDDIAD	CWYN	YMATEB.
Ebrill 2014	Cwyn gan aelod o'r cyhoedd a dderbyniodd ffurflen Trwyddedu Tai Amldeiliadaeth uniaith Saesneg.	Y Gwasanaeth yn ymchwilio'r mater, ac yn darganfod camgymeriad; cydnabod bod hyn yn groes i'r disgwyl, ac anfon ymddiheuriad.
Ebrill 2014	Cwyn ynglŷn â Chymraeg gwallus mewn hysbyseb am Ofalwyr Maeth.	Fersiwn drafft (heb ei wirio) wedi'i anfon at y Daily Post mewn camgymeriad. Anfonwyd fersiwn cywir at y papur ac ymddiheuriad i'r sawl a gwynodd.
Ebrill 2014	Cwyn ynglŷn ag ymateb ffon Saesneg mewn Canolfan Hamdden.	Y sylwadau'n derbyn sylw'r Gwasanaeth drwy'r cynllun Pencampwyr Iaith. Ymddiheuriad i'r cwynydd.
Ebrill 2014	Cwyn ynglŷn â Therapydd Galwedigaethol yn gyndyn o ddefnyddio'r Gymraeg gyda chleient.	Canfod mai diffyg ymwybyddiaeth iaith oedd tu ôl i hyn. Bydd Swyddog Datblygu'r Gweithle mewn cydweithrediad ag Uned Hyfforddi Gwasanaethau Cymdeithasol yn edrych tuag at gryfhau'r elfen yma fel rhan o wersi Cymraeg y Cyngor.
Mai 2014	Cwyn am becyn tendr uniaith Saesneg mewn perthynas ag ail-wynebu ffordd ger mynedfa ysgol.	Er bod y contractwyr wedi nodi dewis i dderbyn dogfennau technegol cyfrwng Saesneg, y Gwasanaeth Eiddo yn derbyn y camgymeriad ac yn ymddiheuro nad oedd y dogfennau cyflwyno

		tendr yn ddwyieithog. Cadarnhau bod staff yn cael eu hatgoffa o'r gofynion.
Mehffin 2014	Cwyn gan aelod o'r cyhoedd, a gyflwynwyd drwy'r Comisiynydd, ynglŷn â'r ffaith y cafodd ei chyfeirio gan yr Uned Safonau Masnach i rif lle nad oedd person Cymraeg ar gael ar y pryd i ymateb i'r galwad.	Esboniwyd i'r cwynydd nad yw'n swyddogaeth statudol i'r Cyngor ddarparu cyngor i ddefnyddwyr bellach. Trosglwyddwyd ei ymholiad o'r Cyngor ac i ganolfan gyswllt CAB (nid yw'r Cyngor yn ariannu'r gwasanaeth penodol yma). Mae'r cwmni sy'n darparu'r gwasanaeth i CAB yn cynnig gwasanaeth cyfrwng Cymraeg; ond nid oedd siaradwr Cymraeg ar gael pan drosglwyddwyd yr ymholiad yma.  Mae'r Uned Safonau Masnach wedi codi'r mater gyda CAB, ac wedi derbyn cadarnhad y bydd yn cael ei drafod yn y cyfarfod adolygu cytundeb nesaf.
Mehffin 2014	Cwyn bod aelod o'r cyhoedd wedi derbyn llythyr uniaith Saesneg o'r Uned Cefnogi Busnes.	Wedi ymchwilio'r mater, ymddengys bod yr Uned wedi ymateb drwy gyfrwng y Saesneg i gais a gohebiaeth uniaith Saesneg anfonwyd atynt (ymateb yn unol â Chynllun Iaith y Cyngor).  Esboniwyd y sefyllfa i'r cwynydd ac anfonwyd fersiwn Cymraeg o'r llythyr ato.
Gorffennaf 2014	Cwyn a gyfeiriwyd gan y Comisiynydd ynglŷn ag arwydd uniaith Saesneg ar yr A487 ger Groeslon.	Yr Uned berthnasol wedi codi a datrys y mater gyda'r ymgymerydd, gan ail-bwysleisio'r angen am arwyddion dwyieithog.
Gorffennaf 2014	Cwyn ynglŷn â'r defnydd o enwau dwyieithog ar strydoedd Gwynedd.	Esbonio'r sefyllfa (fel ag amlinellir mewn cyflwyniad i'r Pwyllgor Iaith 11/10/12). Pwysleisio mai polisi'r Cyngor yw arddel y fersiwn Cymraeg o unrhyw enw.  Noder bod yr Adran Ymgynghoriaeth yn darparu Polisi newydd ar enwau strydoedd, i'w chyflwyno i'r Pwyllgor Iaith yn

		2015.
Awst 2014	Cwyn ynglŷn â diffyg defnydd o'r Gymraeg ar noson agored Pont Briwet.	<p>Cysylltu â'r Adran am ymateb: Er mwyn sicrhau lefel ddigonol o arbenigedd i ateb yr ystod ehangaf o gwestiynau, cafwyd cyflwyniad gan gynrychiolydd y contractwyr (oedd yn ddi-Gymraeg).</p> <p>Gan mai cyflwyniad wrth grwydro'r safle oedd hwn, nid oedd cyfieithu-ar-y-pryd yn addas ychwaith. Fodd bynnag, trefnwyd i sylwebwyr dwyieithog o staff y Cyngor fod ar gael i esbonio ac ymateb drwy gyfrwng y Gymraeg.</p>
Hydref 2014	Cwyn gyffredinol ynglŷn â thrafferthion gyda gwefan Gymraeg y Cyngor ac arwydd Teledu CC uniaith Saesneg.	Tîm y we wedi holi am fwy o wybodaeth er mwyn ymchwilio'r gwyn a'r Uned berthnasol yn ymchwilio os mai'r Cyngor sy'n gyfrifol am yr arwydd dan sylw.
Hydref 2014	Ymholiad ynglŷn â chyfrwng iaith gwersi nofio.	<p>Mae'n ymddangos o ymholiadau cychwynnol nad y Cyngor sy'n darparu'r gwersi penodol hyn, ond yn hytrach clwb nofio lleol.</p> <p>Mae'r Adran yn y broses o gadarnhau beth yw ein perthynas gyda'r clwb, cyn mynd ymhellach.</p>
Hydref 2014	Cwyn drwy Swyddfa'r Comisiynydd ynglŷn â defnyddiwr Gwasanaethau Cymdeithasol a dderbyniodd neges uniaith Saesneg.	Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ymchwilio'r mater, canfod camgymeriad ac ymddiheuro. Wedi derbyn cadarnhad gan Swyddfa'r Comisiynydd eu bod yn hapus gyda'r ymateb, ac yn derbyn mai digwyddiad unigol oedd hwn, yn hytrach na symptom o ddiffyg ehangach.
Tachwedd 2014	Cwyn ynglŷn â llythyr uniaith Saesneg wedi'i dderbyn gan Wasanaethau Cymdeithasol.	Y Gwasanaeth wedi ymchwilio'r mater, canfod camgymeriad ac ymddiheuro.
Tachwedd 2014	Cwyn gan gyn-aelod o staff na dderbyniodd P45 yn y Gymraeg.	Yr Adran Gyllid yn ymchwilio'r mater.
Rhagfyr 2014	Cwyn gan aelod o'r cyhoedd	Y Gwasanaeth wedi ymchwilio i'r

	am fethiant i weithredu yn unol â dewis iaith mewn seremoni priodas.	mater, canfod achos y camgymeriad, cymryd camau i addasu eu trefniadau ac ymddiheuro.
Ionawr 2015	Cwyn gan rhiant bod ysgol wedi dosbarthu deunydd gan drydydd parti a oedd yn uniaith Saesneg.	Yr ysgol wedi ymddiheuro a'r darparwr allanol hefyd wedi cytuno i ddarparu fersiwn dwyieithog o'r deunydd o hyn allan.
Mawrth 2015	Cwyn drwy Swyddfa'r Comisiynydd ynglŷn â gwendid mewn darpariaeth Gymraeg gan Cyd-Cymru y mae'r Cyngor yn cyfeirio trigolion atynt i geisio arbed costau ynni cartref.	Wedi ateb gan nodi nad gwasanaeth gan y Cyngor yw hwn, bod camau wedi eu cymryd i sicrhau bod gymaint o'r gwasanaeth ag sy'n bosib ar gael yn y Gymraeg (pob dim heblaw un cam). Rydym yn disgwyl ymateb y Comisiynydd i'r ymateb.

O safbwynt cwynion yn erbyn Cynllun Iaith y Cyngor, gellir crynhoi tabl i) uchod fel a ganlyn:

Nifer Cwynion	% a ymdriniwyd â hwy	Ymdrîn yn ôl safonau corfforaethol
18	100%	100%

#### 4) Rheolaeth a Gweinyddiad y Cynllun

- Eglurhad o unrhyw newidiadau i drefniadau llywodraethu a chraffu mewnol o'r cynllun iaith

Ni fu unrhyw newidiadau i drefniadau llywodraethu a chraffu mewnol y Cynllun Iaith yn ystod 2014/15.

Mae'r Pwyllgor Iaith yn parhau i fod â chyfrifoldeb i sicrhau gweithrediad y Cynllun Iaith, ac yn ystod 2014/15, bu i'r pwyllgor sefydlu rhaglen waith benodol ar gyfer y flwyddyn.

Ar yr un pryd, mynegodd aelodau'r pwyllgor eu dymuniad i gael rôl mwy rhagweithiol mewn perthynas â rhai meysydd, fyddai'n arwain at ymateb mwy manwl ac argymhellion mwy pendant na'r drefn a ganiateir gan gyfarfodydd arferol y pwyllgor.

Golyga hyn weithredu trefn tebyg i'r Ymchwiliadau Craffu a gynhelir gan y Pwyllgorau Craffu, gan gynnal dim mwy na 2 ymchwiliad yn ystod y flwyddyn.

Ar gyfer yr ymchwiliad cyntaf, penderfynodd aelodau'r pwyllgor gynnal Ymchwiliad Iaith i'r canlynol: Y defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd allanol. Mae'r Ymchwiliad Iaith hwn yn parhau, ac felly mae'n gynamserol adrodd arno fel rhan o'r Adroddiad Blynyddol yma.

- Amlinelliad o'r camau a gymerwyd i fonitro ansawdd gwasanaethau Cymraeg

#### A) Trefniadau Trydydd Parti

##### i) Contractau Gofal Cymdeithasol

Yn ystod 2013, comisiynwyd Y Ganolfan Cynllunio Iaith i gynnal arolwg o ofynion ac ymarfer Cyngor Gwynedd wrth ddarparu gwasanaethau Cartrefi Gofal (Preswyl a Nyrsio), a Gofal Cartref er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i arddel y safonau gorau posib mewn perthynas ag iaith.

Dros y flwyddyn, mae'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol wedi bod yn ymateb i argymhellion yr arolwg, gan osod gofynion uwch a mwy penodol. Mae'r drefn monitro'n adnabod a chyfarch unrhyw bryderon, gan lunio cynllun gwella. Gall hyn gynnwys:

- Hyfforddiant ieithyddol rhad ac am ddim trwy Bartneriaeth Gweithlu Gwynedd
- Anogaeth a tharged i recriwtio staff dwyieithog o fewn amserlen benodedig
- Sicrhau bod staff sy'n gallu'r Gymraeg ar bob shift mewn cartref gofal
- Nodi anghenion iaith defnyddwyr ar gynlluniau gofal er mwyn sicrhau gweithwyr gofal cartref addas
- Codi ymwybyddiaeth ieithyddol darparwyr a'u hymwybyddiaeth o adroddiad Y Ganolfan Cynllunio Iaith
- Cryfhau cymalau ieithyddol o fewn ein cytundebau'n unol ag argymhellion Y Ganolfan Cynllunio Iaith.

Dan y drefn newydd, sefydlwyd gwaelodlin mewn perthynas â gofal preswyl a chartref, gyda bas data i fonitro cydymffurfiaeth iaith.

Mewn ymateb i ofynion "Mwy Na Geiriau", sefydlwyd Grŵp Tasg i fonitro ein cynnydd yn erbyn y disgwyliadau: Bydd y Grŵp yn craffu cydymffurfiaid darparwyr trydydd parti yn y maes Gwasanaethau Cymdeithasol a'r data monitro ddaw o'r bas data newydd.

Gan ein bod wedi adolygu a chryfhau ein trefniadau, gwelwn fod y ffigurau a gasglwyd hyd yma ar % cydymffurfio yn is na'r gorffennol. Hyderwn fodd bynnag y bydd hyn yn rhoi darlun gwell o'r gwir sefyllfa ac yn adnabod meysydd penodol ar gyfer gwella. Lle ceir diffyg cydymffurfiaeth, bydd yr

Adran yn gweithio i sicrhau gwelliant ac yn parhau i fonitro ac adrodd ar y sefyllfa.

### Mudiadau Gwirfoddol

Nifer	% wedi'u monitro	% yn cydymffurfio	% ddim yn cydymffurfio
22	95.5%	75%	25%

#### Sylwadau:

Polisi iaith ddim yn ddigon cynhwysfawr

Polisi iaith ddim ar gael yn y ddwy iaith

Peth o wybodaeth i'r cyhoedd ddim ar gael yn ddwyieithog

### Darparwyr Gofal Cymunedol

Nifer	% wedi'u monitro	% yn cydymffurfio	% ddim yn cydymffurfio
8	100%	80%	20%

#### Sylwadau:

67% o staff yn siarad Cymraeg – lleiaf 33% a uchaf 93%

Angen sicrhau fod pob cleient yn derbyn gwasanaeth yn unol ag anghenion iaith

Peth o wybodaeth ar gael i staff ddim yn ddwyieithog

### Cartrefi Annibynnol

% wedi'u monitro neu eu hadolygu yn ystod y cyfnod	% o ofalwyr Cymraeg	% nyrsys Cymraeg (lle'n berthnasol)
62%	72%	23%

#### Sylwadau:

Cydymffurfiaeth yn is mewn cartrefi Nyrsio

Dim newid i'r tuedd bod nyrsys yn ddi-Gymraeg. Prinder nyrsys yn fater cenedlaethol.

Cydymffurfiaeth yn is mewn ardaledd mwy seisnig

Calonogol bod un cartref mewn ardal fwy seisnig wedi ymrwymo i sicrhau bod llenyddiaeth ar gael yn ddwy-ieithog. Siaradwyr Cymraeg hefyd yn gwisgo'r bathodyn oren.

### Darparwyr Tai Cefnogol

Nifer	% wedi'u monitro	% yn cydymffurfio	% ddim yn cydymffurfio
5	100%	60%	40%

#### Sylwadau:

Dim ond unwaith mae y rhan fwyaf o'r gwasanaethau tai Cefnogol wedi cael eu monitro.

Cynlluniau gofal ddim mewn dewis iaith y defnyddwyr gwasanaeth, ond mi roedd dewis iaith y defnyddwyr yn cael ei nodi.

Polisiâu a gweithdrefnau ddim yn ddwyieithog.

Gwefan ddim ar gael yn ddwyieithog.

Mae ymdrech yn cael ei wneud i roi staff Cymraeg hefo defnyddwyr gwasanaeth Cymraeg iaith gyntaf.

### Darparwyr Gwasanaethau Cefnogol Iechyd Meddwl

Nifer	% wedi'u monitro	% yn cydymffurfio	% ddim yn cydymffurfio
6	100%	66.6	33.3

#### Sylwadau:

Dim ond yn ddiweddar y cafodd y gwasanaethau iechyd meddwl eu monitro, a dyma'r tro cyntaf iddynt gael eu fonitro.

Mae ymdrech yn cael ei wneud i roi staff Cymraeg hefo defnyddwyr gwasanaeth Cymraeg iaith gyntaf.

Nid yw ffeiliau defnyddwyr gwasanaeth wedi cael eu hysgrifennu yn newis iaith y defnyddwyr, ond mi fydd dewis iaith yr unigolion yn cael ei nodi ar y cynllun gofal.

#### ii) Contractau sy'n darparu ar gyfer pobl ifanc a chontractau ar gyfer darpariaeth cyn oed ysgol

Drwy Bartneriaeth Gwynedd a Môn, mae Cyngor Gwynedd wedi comisiynu pedwar Pecyn Strategol (LOT 1-4) ar gyfer gweithredu Cynllun 'Teuluoedd yn Gyntaf Gwynedd dros 4 blynedd 2013- 2017' yn ogystal ag ariannu Tîm Gyda'n Gilydd a phecyn ar gyfer 'Hyrwyddo Llais Rhieni, Plant a Phobl Ifanc'.

Pecynnau Strategol Teuluoedd yn Gyntaf Gwynedd  
(Darparu gwasanaeth ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd)

LOT	DARPARWR ARWEINIOL	DARPARWYR CEFNOGOL
Lot 1 Cefnogi Teuluoedd Gwynedd drwy hyrwyddo rhiantu cadarnhaol a chryfhau gwynwch teuluoedd	Caban Bach Barnardos	Uned Blynyddoedd Cynnar, Cyngor Gwynedd Derwen GISDA Cartref Bontnewydd YJS Gwynedd a Môn NYAS Gweithredu Dros Blant
Lot 2 Cefnogi Teuluoedd Gwynedd drwy hyrwyddo gwybodaeth a llythrennedd ariannol a chynorthwyo rhieni i mewn i waith	CAB Gwynedd	Gwasanaeth Llyfrgelloedd, Cyngor Gwynedd GISDA Barnardos, Caban Bach
Lot 3 Cefnogi Teuluoedd Gwynedd drwy gyfleoedd chwarae, chwaraeon a hamdden egniol	Uned Blynyddoedd Cynnar, Cyngor Gwynedd	Derwen
Lot 4 Cefnogi Teuluoedd Gwynedd drwy'r blynyddoedd cynnar	Uned Blynyddoedd Cynnar (Cyngor Gwynedd)	BIPBCBarnardos, Caban Bach
Teuluoedd yn Gyntaf - Tîm Gyda'n Gilydd a datblygu gweithlu	Tîm Gyda'n Gilydd, Cyngor Gwynedd	
Hyrwyddo Llais Rhieni, Plant a Phobl Ifanc	Cartref Bontnewydd a Phrifysgol Bangor	Cartref Bontnewydd a Phrifysgol Bangor

Mae'r cynlluniau hyn i gyd wedi eu monitro, ac mae 100% yn cydymffurfio â gofynion Cynllun Iaith y Cyngor.

#### 4. Digonolrwydd Sgiliau Iaith Gymraeg



Mae ymrwymiad a'r camau a gymerir gan y Cyngor i sicrhau digonolrwydd sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu yn parhau i fod yr un fath, er gwaetha'r cyfnod o gyfyngu ar recriwtio allanol a thorri cyllidebau.

Mae'r rhan fwyaf o staff y Cyngor yn siarad Cymraeg, ac mae darpariaeth asesiad iaith a chyngor ar gael i unrhyw unigolyn sydd angen gwella ei sgiliau iaith. Disgwylir i'r unigolion gael eu cyfeirio at Gydgyssylltydd y Gymraeg gan eu Rheolwyr, neu gan yr Ymgynghorwyr Adnoddau Dynol.

A) Dangosydd Perfformiad: Adnoddau Dynol a Sgiliau (1)

- Nifer a % staff (siaradwyr Cymraeg a dysgwyr) sydd wedi derbyn hyfforddiant yn y GYMraeg i lefel cymhwyster penodol:

Nifer unigolion yn derbyn hyfforddiant dysgu Cymraeg Lefel Mynediad -Meistroli	48
Nifer unigolion sydd wedi mynychu dosbarthiadau Gloywi Gwella Cymraeg Ysgrifenedig i siaradwyr Cymraeg	8

Mae'r dysgwyr yn derbyn eu hyfforddiant gan y darparwyr isod:

- Yn fewnol – Tiwtor/Cydgysylltydd y Gymraeg, Cyngor Gwynedd
- Prifysgol Bangor
- Prifysgol Aberystwyth
- Colegau Grŵp Llandrillo Menai

Natur y ddarpariaeth – mae'r dysgwyr yn derbyn un o'r isod neu gyfuniad ohonynt:

- Cyrsiau rheolaidd dros y flwyddyn – wythnosol (unwaith neu ddwywaith yr wythnos)
- Cyrsiau dwys – Ysgolion Haf/Calan yn Aberystwyth, Dolgellau, Bangor, Pwllheli, Yr Wyddgrug wedi eu trefnu gan y darparwyr
- Cwrs 3 diwrnod Medi – Cymraeg yn y Gweithle – Prifysgol Bangor. Wedi ei ddarparu ar gyfer sefydliadau o fewn y gwasanaethau cyhoeddus yng ngogledd Cymru i wella sgiliau iaith yn y gweithle.
- Cyrsiau Gloywi Iaith – Cyrsiau dros gyfnod wedi eu hachredu ac wedi eu darparu gan Grŵp Llandrillo Menai

Canrannau ar y gwahanol lefelau ar ddechrau'r cyfnod:

LEFEL	NIFER	CANRAN
Mynediad	13	27%
Sylfaen	8	17%
Canolradd	9	19%
Uwch	18	37%

B) Dangosydd Perfformiad: Adnoddau Dynol a Sgiliau (2):

- Nifer a % staff sydd wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith:

Mae Hyfforddiant Ymwybyddiaeth iaith ar gael drwy Uned Hyfforddiant gwasanaethau Cymdeithasol ac yn gorfforaethol.

<b>YMWYBYDDIAETH IAITH</b>	<b>NIFER</b>
Croeso i'r Cyngor (yn cynnwys elfen o Ymwybyddiaeth iaith)	47
Ymwybyddiaeth iaith (hanner diwrnod wedi ei deilwra ar gyfer y gwasanaeth)	7

C) Sgiliau leithyddol Staff

Mae'r niferoedd isod yn seiliedig ar ymatebion Penaethiaid Adran.

ADRAN	UNED	ARDAL	NIFER	NIFER DDIM YN SIARAD CYMRAEG
<b>Addysg</b>	Cyflogau a Chontractau Ysgolion	Arfon	5	0
	Disgyblion a Chynhwysiad	Arfon	7	0
	Gwasanaeth Lles	Arfon Dwyfor Meirion	4 2 1	0 0 0
	Llywodraethwyr	Arfon	2	0
	Arlwyo a Glanhau	Arfon/Meirion Dwyfor/Meirion Dwyfor	2 2 1	
	Mynediad ac Adeiladau	Arfon	3	0
	Uned Gefnogi Addysg	Arfon Dwyfor	2 9	0 0
	Trefniadaeth Ysgolion	Arfon	6	0 0
	Uned Reoli	Arfon	6	0
	Ysgolion / Staff Dysgu	Arfon Dwyfor Meirio	1,358 727 548	0 0 0
<b>Addysg Cyfanswm</b>			<b>2,685</b>	<b>0 (100% yn siarad Cymraeg)</b>

<b>ADRAN</b>	<b>UNED</b>	<b>ARDAL</b>	<b>NIFER</b>	<b>NIFER DDIM YN SIARAD CYMRAEG</b>
<b>Cefnogaeth Gorfforaethol</b>	Adnoddau Dynol a Datblygu'r Gyfundrefn	Arfon	4	0
	Cefnogol	Arfon	42	0
	Dysgu a Datblygu	Arfon	12	0
	Comisiynu Corfforaethol	Arfon Môn Meirion	60 5 2	0 0 0
	Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol	Arfon	26	0
	Cyfathrebu	Arfon	6	0
	Cyflawni a Chefnogi Newid	Arfon	3	0
	Uned Rheoli	Arfon	2	0
<b>Cefnogaeth Gorfforaethol Cyfanswm</b>			<b>190</b>	<b>0 (100% yn siarad Cymraeg)</b>

<b>ADRAN</b>	<b>UNED</b>	<b>ARDAL</b>	<b>NIFER</b>	<b>NIFER DDIM YN SIARAD CYMRAEG</b>
<b>Priffyrdd a Bwrdeistrefol</b>	Comisiynu	Arfon	21	0
		Dwyfor	13	0
		Meirion	19	0
		Anhysbys	19	0
	Fflyd	Arfon	10	0
		Dwyfor	11	0
		Meirion	8	0
		Anhysbys	6	0
	Gwaith Bwrdeistrefol	Arfon	104	1
		Dwyfor	71	1
		Meirion	79	4
		Anhysbys	75	0
	Gwaith Priffyrdd	Môn	2	0
		Arfon	29	0
		Dwyfor	21	0
		Meirion	38	0
		Anhysbys	30	0
	Trin Gwastraff	Arfon	2	0
		Meirion	10	1
		Anhysbys	5	0
	Uned Rheoli	Arfon	3	0
		Anhysbys	1	0
<b>Priffyrdd a Bwrdeistrefol Cyfanswm</b>			<b>577</b>	<b>7 (98.8% yn siarad Cymraeg)</b>

<b>ADRAN</b>	<b>UNED</b>	<b>ARDAL</b>	<b>NIFER</b>	<b>NIFER DDIM YN SIARAD CYMRAEG</b>
<b>Rheoleiddio</b>	Amgylcheddol	Arfon	30	0
		Dwyfor	5	0
		Meirion	5	0
		Anhysbys	1	0
	Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd	Arfon	12	1
	Bwyd Iechyd a Diogelwch	Arfon	9	0.4fte
		Dwyfor	4	0
		Meirion	3	0
		Anhysbys	1	0
	Canol Gwarchod y Cyhoedd	Arfon	4	0
		Dwyfor	1	0
		Meirion	2	0
		Anhysbys	1	0
	Cynllunio		20	0
	Llygredd a Difa Pla	Arfon	5	0
		Dwyfor	5	0
		Meirion	3	0
	Safonau Masnach	Arfon	5	0
		Dwyfor	2	0
		Meirion	6	0
	Trafnidiaeth a Gofal Stryd	Arfon	45	1
		Dwyfor	8	2
		Anhysbys	10	4
	Trwyddedu	Arfon	2	0
		Dwyfor	1	0
		Meirion	1	0
	Uned Rheoli	Arfon	2	0
	Eiddo		40	0
<b>Rheoleiddio Cyfanswm</b>			<b>233</b>	<b>7.4 (96.9% yn siarad Cymraeg)</b>

<b>ADRAN</b>	<b>UNED</b>	<b>ARDAL</b>	<b>NIFER</b>	<b>NIFER DDIM YN SIARAD CYMRAEG</b>
<b>Ymgynghoriaeth</b>	Ffyrdd a Pheirianeg	Arfon Meirion Dwyfor	49 3 5	1 0 0
	Adeiladu ac Amgylcheddol	Arfon Meirion Dwyfor	37 6 5	0 0 0
	Uned Busnes	Arfon Meirion Dwyfor	6 1 0	1 0 0
	Uned Reoli	Arfon Meirion Dwyfor	3 0 0	0 0 0
<b>Ymgynghoriaeth Cyfanswm</b>			<b>119</b>	<b>2 (98.24% yn siarad Cymraeg)</b>

<b>ADRAN</b>	<b>UNED</b>	<b>ARDAL</b>	<b>NIFER</b>	<b>NIFER DDIM YN SIARAD CYMRAEG</b>
<b>Cyfreithiol</b>	Cyfreithiol		14.7	0
	Etholiadau		1.8	0
	Priodoldeb		0.5	0
	Rheoli		1	0
<b>Democratiaeth a Chyfreithiol Cyfanswm</b>			<b>18</b>	<b>0 (100% yn siarad Cymraeg)</b>

<b>GWASANAETH</b>	<b>UNED</b>	<b>ARDAL</b>	<b>NIFER</b>	<b>NIFER DDIM YN SIARAD CYMRAEG</b>
<b>Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion, Iechyd a Llesiant</b>	Rheolaeth Tai	Arfon	3	0
		Dwyfor	1	0
	Cefnogi Pobl	Arfon	3	0
	Digartrefedd a Tai Cefnogol	Arfon	10	1
		Dwyfor	4	0
		Meirion	4	0
		TOT Arfon	7	0
		Hosteli	7	2
	Tai Sector Breifat	Arfon	7	0
		Meirion	10	0
		Dwyfor	8	1
	Cyswllt Cwsmer	Arfon	13	0
		Dwyfor	3	0
		Meirion	25	0
		Anhysbys	4	0
	Cofrestru	Arfon	10	0
		Dwyfor	4	0
		Meirion	6	0
		Anhysbys	5	0
	Gwybodaeth	Arfon	5	0
			<b>323</b>	<b>22 (93.2% yn siarad Cymraeg)</b>

D.S. Disgwylir fwy o ffigurau o Wasanaethau Cymdeithasol yn y dyfodol agos.



<b>ADRAN</b>	<b>UNED</b>	<b>ARDAL</b>	<b>NIFER</b>	<b>NIFER DDIM YN SIARAD CYMRAEG</b>
<b>Cyllid</b>	Archwilio Mewnol	Arfon	7	0
	Buddsoddi a Rheolaeth Trysorlys	Arfon	3	0
	Cyflogau	Arfon	11	0
	Cyfrifeg	Arfon	39	0
	Pensiynau	Arfon	17	
	Refeniw- Incwm/ Arianwyr	Arfon	10	0
	Taliadau/ Credydwyr	Arfon	8	0
	Refeniw- Trethi a Budd Dal	Arfon Dwyfor Meirion	30 17 9	0 0 1
	Rheolaeth Risg/ Yswiriant	Arfon	2	0
	Uned Reoli	Arfon	6	0
	Technoleg Gwybodaeth	Arfon	46	0
<b>Cyllid Cyfanswm</b>			<b>205</b>	<b>1 (99.51% yn siarad Cymraeg)</b>

<b>ADRAN</b>	<b>UNED</b>	<b>ARDAL</b>	<b>NIFER</b>	<b>NIFER DDIM YN SIARAD CYMRAEG</b>
<b>Economi a Chymuned</b>	Adfywio Cymunedol	Arfon	11	0
		Dwyfor	1	0
		Meirion	2	0
	Amgueddfeydd	Arfon	6	1 (rhan amser)
		Dwyfor	3	0
		Anhysbys	5	0
	Archifau	Arfon	9	0
		Meirion	3	0
	Cefnogi Busnes	Arfon	9	0
	Celfyddydau	Arfon	1	0
	Celfyddydau Perfformio	Dwyfor	18	1 (wrth gefn)
		Meirion	7	
	Ieuenctid	Arfon	60	0
		Dwyfor	25	0
		Meirion	39	4 (rhan amser)
		Llawn-amser	17	0
	Morwrol	Dwyfor	16	0
		Meirion	2	1
	Oriellau	Arfon	1	1 rhan-amser
		Anhysbys	1	0
	Parciau Gwledig	Arfon	6	0
	Prosiectau Sylweddol	Arfon	5	0
		Meirionnydd	1	0
	Sgiliau a Mentergarwch	Arfon	5	0
	Strategaeth a Datblygu	Arfon	3	0
	Twristiaeth, Marchnata a Gofal Cwsmer	Arfon	13	0
		Dwyfor	3	0
		Meirion	4	0
		Anhysbys	12	0

	Uned Reoli	Arfon	7	0
	Llyfrgelloedd	Arfon Dwyfor Meirion Anhysbys	38 9 18 10	0 0 0 0
	Canolfannau Hamdden	Arfon Dwyfor Meirion	124 65 70	1 0 3
<b>Economi a Chymuned Cyfanswm</b>			<b>629</b>	<b>12 (98.12% yn siarad Cymraeg)</b>

## 6. Prif-Ffrydio'r Gymraeg

### A) Prif-Ffrydio (Strwythurau a Chyfrifoldebau)

Mae'r Cyngor yn sicrhau lle amlwg i'r Gymraeg o fewn ein trefniadau asesu effaith cydraddoldeb statudol. Mae ein dogfennaeth Cabinet yn nodi'n glir yr angen i ystyried yr angen am asesiad o'r math yma, ac mae'r Swyddog Polisi / Rheolwr Gwasanaethau Democraataidd (a laith) yn craffu rhaglen waith y Cabinet er mwyn tynnu sylw at y gofynion mewn perthynas ag unrhyw adroddiadau sy'n cael eu paratoi. Ar yr un pryd, mae unrhyw ddogfennaeth sy'n ymwneud â chynigion posib i dorri gwasanaethau hefyd yn cynnwys yr angen i ystyried cynnal asesiad effaith cydraddoldeb, a beth oedd canlyniad cynnal asesiad o'r fath.

### B) Hyrwyddo'r laith Gymraeg

Cyngor Gwynedd yw corff arweiniol a sefydliad lletyol Hunaniaith. Partneriaeth amlasiantaethol yw Hunaniaith a ddaeth ynghyd i weithredu prosiectau a gosod cyfeiriad strategol ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg yng Ngwynedd. Mae strwythur gweithredu Hunaniaith fel a ganlyn:

Grŵp Cyfeiriad Strategol  
Grŵp Gweithleoedd a Gwasanaethau Dwyieithog  
Gweithgor Dylanwadu ar Ddefnydd Cymdeithasol Plant o'r Gymraeg  
Grŵp Cymunedol Arfon  
Fforwm laith Gwynedd

Bu 5 swyddog yn gyfrifol am gydlynw, gosod cyfeiriad a gweithredu rhaglen waith Hunaniaith yn ystod 2014-15, sef:

- Swyddog Hyrwyddo laith (a gyflogir yn uniongyrchol gan y Cyngor). Dyletswyddau rheoli a goruchwylio yn unig berthynai i'r swydd hon rhwng Ebrill 2014 a Mawrth 2015 tra buo deilydd y swydd ar secondiad i'r swydd Rheolwr Gwasanaethau Democraataidd.

- Swyddog Datblygu Iaith Gwynedd x 3. Cyflogir un o'r swyddi drwy grant gan Is-adran y Gymraeg, Llywodraeth Cymru, y llall drwy gronfa Bwrw Mlaen Llywodraeth Cymru, a'r llall drwy gyfuniad o gyllid Cynllun Strategol y Cyngor a'r cyllid sy'n arfer cyflogi'r Swyddog Hyrwyddo Iaith.
- Cydlynnydd Siarter Iaith Ysgolion Cynradd Gwynedd, swydd a gyllidir ar y cyd rhwng Cyngor Gwynedd a grant gan Is-adran y Gymraeg, Llywodraeth Cymru.

Mae Hunaniaith yn gweithredu nifer o brosiectau drwy Adrannau'r Cyngor gan fanteisio ar gyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg a chynllunio ieithyddol y tu hwnt i ofynion statudol, megis:

- Cydlynu gweithrediad Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd yn 97 ysgol gynradd y Sir;
- Adnabod gwaelodlin ar gyfer defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ymysg disgyblion pob un o'r 14 ysgol uwchradd yng Ngwynedd;
- Ymchwilio i'r ffactorau sydd yn dylanwadu ar y Gymraeg mewn cymunedau penodol yn sgil cyhoeddi canlyniadau Cyfrifiad 2011;
- Cefnogi Menter Iaith Bangor i wireddu eu cynlluniau a'u gweledigaeth ar gyfer sefydlu Canolfan Iaith yn y ddinas.

Mae Hunaniaith yn gweithredu'n gymunedol er mwyn meithrin agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg a chynyddu statws a hyder pobl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau. Bu pwyslais ar weithio yn y cymunedau ble bu gostyngiad nodedig yng nghanrannau siaradwyr Cymraeg yn sgil canlyniadau Cyfrifiad 2011. Mae engreiffiau o weithgarwch Hunaniaith yn cynnwys y canlynol:

- Cynhaliwyd diwrnodau o weithgareddau i deuluoedd â phlant ifanc i hyrwyddo'r Gymraeg fel iaith i'w throsglwyddo i blant ac i'w defnyddio yn y teulu
- Hwyluswyd proses o fapio sefyllfa'r Gymraeg a chynllunio ei ffyniant mewn cymunedau sy'n dangos gostyngiad yng nghanrannau siaradwyr Cymraeg;
- Hyrwyddwyd ymwybyddiaeth a balchder yn y Gymraeg drwy gyfrwng gweithdai pêl droed;
- Cydweithiwyd gyda choleg addysg bellach ac asiantaeth Sgiliaith i greu modiwl ar-lein sy'n hyrwyddo'r Gymraeg fel sgil ac fel cyfrwng dysgu ymysg myfyrwyr galwedigaethol;

Mae Hunaniaith hefyd yn cydweithio gyda Swyddogion Iaith nifer o gyrrff cyhoeddus sydd yn gwasanaethu yng Ngwynedd. Yn 2014/15, bu Hunaniaith yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol ar y cyd â hwy:

- Llunio diffiniad o weithle dwyieithog
- Trafod y bwriad o ddatblygu dull cyffelyb i'r gwe iaith er mwyn sefydlu gwaelodlin ar gyfer sgiliau iaith staff

- Creu clipiau fideo yn hyrwyddo gwerth y Gymraeg gan eu defnyddio gyda'r gweithlu

Mae'r Gymraeg yn parhau i fod yn flaenoriaeth yng Nghynllun Strategol y Cyngor ar gyfer 2015-2017–, a hunaniaith yw'r cerbyd ar gyfer gweithredu nifer o'r blaenoriaethau a adnabyddir yno.

## **7. Dadansoddiad o berfformiad**

### Adnabod Risgiau a Blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf

- Ymateb i ofynion y Safonau Iaith, gan sicrhau ein bod yn anelu at fynd y tu hwnt i'r gofynion craidd ble'n bosibl
- Defnyddio'r Safonau Iaith fel man cychwyn i wella'n darpariaeth ac i ddwyn perswâd ar gyrff eraill i wella eu darpariaeth hwy drwy gyfrwng y Gymraeg
- Gosod trefniadau mewn lle er mwyn ein galluogi i fesur ac adrodd ar ein cydymffurfiaeth â'r Safonau Iaith.
- Sicrhau fod Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb (yn cynnwys y Gymraeg) wedi eu cynnal fel rhan o unrhyw gynigion i dorri neu allanoli gwasanaethau, gan gefnogi'r Cyngor i warchod y Gymraeg ble fo hynny'n ymarferol bosibl.

## **8. Cyhoeddi Gwybodaeth**

Byddwn yn cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol ar weithrediad Cynllun Iaith y Cyngor gerbron y Pwyllgor Iaith ar 18 Mehefin 2015, ac yna cyflwynir yr adroddiad i Gomisiynydd y Gymraeg. Yn dilyn hynny, cyhoeddir y dogfennau ar wefan y Cyngor.

# Eitem 10

## 1. CRYNODEB GWEITHREDOL

Yn dilyn y gwaith arloesol o sefydlu Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd i gynyddu defnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg, daeth yn amserol cyfeirio sylw at y sector uwchradd a chynllunio dilyniant i ymdrechion y sector cynradd.

Ym mis Medi 2013 sefydlwyd Gweithgor Cynyddu'r Defnydd Cymdeithasol o'r Gymraeg yn y Sector Uwchradd ac ym mis Mawrth 2014 comisiynodd y Gweithgor gwmni Trywydd i gynnal arolwg o sefyllfa'r Gymraeg fel iaith gymdeithasol ymysg pobl ifanc ysgolion uwchradd Gwynedd. Mae'r ddogfen hon yn adrodd ar waith yr arolwg hwn a wnaed yn nhymor yr haf 2014. O safbwynt y comisiwn dan sylw, rhannwyd y gwaith fel a ganlyn:

- Cynnal arolwg cynhwysfawr o ddefnydd cyfredol pobl ifanc o'r Gymraeg y tu hwnt i ffiniau'r dosbarth yn yr 14 ysgol uwchradd yng Ngwynedd, a chanfod y prif ffactorau sy'n dylanwadu ar ddefnydd iaith y bobl ifanc;
- Cynllunio a chynnal gweithdy er mwyn cael mewnbwn y bobl ifanc eu hunain i gynllunio a datblygu dilyniant i Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd;
- Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r arolwg, llunio cyfres o gynigion arloesol er mwyn dylanwadu'n gadarnhaol ar ddefnydd cymdeithasol pobl ifanc o'r Gymraeg;
- Cyflwyno cynigion ynghylch sut i fesur llwyddiant unrhyw gynlluniau a weithredir, hynny yw, cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol o ganlyniad i unrhyw ymyraethau a weithredir.

Wrth ymateb i ofynion y briff, trefnwyd ymweliadau â holl ysgolion uwchradd Gwynedd am ddiwrnod cyfan yr un er mwyn cynnal yr arolwg ysgol-gyfan. Trefnwyd grwpiau ffocws eang a chynrychioliadol gyda holl fudd-ddeiliaid yr ysgolion, a chynhaliwyd holiadur meintiol electronig (drwy beiriannau Qwizdom) gyda disgyblion blwyddyn 9 ymhob ysgol. Yn ogystal â'r diwrnodau ymchwil, cynhaliwyd cyfarfodydd ychwanegol yn ystod cyfnod gyda staff Hunaniaith, Siarter Iaith Ysgolion Cynradd Gwynedd, arweinwyr cymunedol yn y sir (yr Urdd, CFFI, Rheolwr Gwasanaeth Ieuencid y Cyngor Sir a'r Canolfannau Hamdden), a Gweithgor Cynyddu'r Defnydd Cymdeithasol o'r Gymraeg Cyngor Gwynedd.

Mae'r canfyddiadau'n amrywio'n helaeth rhwng gwahanol ysgolion ac ardaloedd ond adnabuwyd saith prif faes i'r darganfyddiadau lefel sirol fel a ganlyn. Ymhelaethir ar y pwyntiau yng nghorff yr adroddiad hwn:

### *i) Diffinio natur ieithyddol yr ysgolion*

- Mae ansicrwydd ymysg rhanddeiliaid ynglŷn â natur ieithyddol yr ysgolion. Nid yw'n eglur i'r rhanddeiliaid a yw'n Ysgol Gymraeg naturiol, yn Ysgol Ddwylieithog neu'n Ysgol Saesneg (mewn ambell achos).
- Mae rhai ysgolion yn sensitif iawn o hyrwyddo'r Gymraeg rhag gelyniaethu rhieni.
- Mae angen eglurder ar lefel sirol ac ysgol ar natur ieithyddol yr ysgol.

ii) *Y modd y mae'r ysgolion yn hyrwyddo ac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg*

- Mae angen bod yn glir am y manteision sy'n perthyn i addysg Gymraeg / Dwyieithog a rhannu'r rheini'n hygryw gyda rhieni a disgyblion.
- Mae angen mwy o gynllunio strategol a gweithredu bwriadus o ran defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth.
- Rhaid i'r strategaeth gwmpasu'r holl fudd-ddeiliaid, ond yn arbennig y disgyblion eu hunain.

iii) *Defnydd iaith a'r Cwricwlwm*

Mae amrywiaethau o fewn ysgolion y sir o safbwynt:

Yr iaith a ddefnyddir mewn gwahanol sefyllfaoedd:

- Cymraeg yw'r brif / unig iaith
- Saesneg yw'r brif / unig iaith
- Dwyieithrwydd yn ei amryw ddiffiniad

Iaith ysgrifennu'r disgyblion yn y wers

- Pwy sy'n penderfynu

Beth yw polisi a threfn gweithredu yn sgysiau a thrafodaethau'r dosbarth

- Athro a disgyblion unigol/grŵp
- Disgybl a disgybl

Dilyniant Cynradd - Uwchradd

- Nid yw pob disgybl sy'n cyrraedd Lefel 4 yn y Gymraeg yn dilyn cwrs Cymraeg iaith gyntaf ym mlwyddyn 7

iv) *Defnydd iaith disgyblion y tu hwnt i'r dosbarth*

- Mae'r ysgolion yn ficosom o'r defnydd a wneir o'r Gymraeg yn y cymunedau o'u cwmpas, ac mae'r ystod ieithyddol honno'n un eang iawn.
- Nid oes yr un ysgol sydd mewn sefyllfa gwbl 'ddiogel' o safbwynt y defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg yn yr hirdymor.
- Un o'r heriau yw meithrin ymdeimlad o hunaniaeth Gymraeg / Gymreig a thanlinellu bod y Gymraeg yn iaith i bawb yng Ngwynedd.
- Darperir cyfoeth o weithgareddau allgyrsiol gan ysgolion, ond mae amrywiaeth ar draws y Sir ac mae eisiau atgyfnerthu'r ddarpariaeth.

Cynyddu Defnydd Cymdeithasol Plant a Phobl Ifanc Ysgolion Uwchradd Gwynedd o'r Gymraeg

v) *Y ffactorau sy'n dylanwadu ar ddefnydd iaith y plant*

Adnabuwyd y prif rai fel a ganlyn:

- y cartref / teulu
- ffrindiau a chyfoedion
- y gymuned leol
- eu hyder i ddefnyddio iaith
- arferion iaith (yn cynnwys yr ysgol gynradd)

vi) *Agweddau tuag at y Gymraeg*

- Ar y cyfan mae agweddau disgyblion tuag at y Gymraeg yn gadarnhaol iawn. Cafwyd enghreifftiau unigol o agweddau heriol tuag at y Gymraeg (o blith disgyblion ac oedolion mewn ambell ysgol).
- Mae awydd cyffredinol gan ysgolion i symud ar hyd y continwmm ieithyddol o ran annog defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg, er eu bod yn ansicr o'r modd o wneud hyn.

vii) *Y Gymraeg y tu hwnt i'r ysgol*

- 57% o ddisgyblion yr arolwg meintiol sy'n defnyddio eu Cymraeg bob dydd y tu allan i fywyd yr ysgol mewn gwahanol gyd-destunau yng Ngwynedd.
- Mae gan y Clybiau Ieuenctid a'r Canolfannau Hamdden ddylanwad mawr ar y bobl ifanc, a rhaid rhoi sylw i'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y manau hyn.
- Nid yw'r ddarpariaeth gymunedol cyfrwng Cymraeg yn gyson hygyrch ar draws y sir.

Er mwyn gwneud cyfiawnder â manylder yr arolwg ar lefel ysgol, lluniwyd adroddiadau cryno ar gyfer yr 14 ysgol unigol. Mae prif themâu'r holl arolygon ysgol yn bwydo argymhellion cyfansawdd yr adroddiad hwn ar lefel sirol / awdurdod addysg ac ar lefel ysgol (Adran 7). I ategu'r darganfyddiadau ansoddol, ceir canlyniadau llawn yr ystadegau meintiol cyfansawdd a gasglwyd drwy'r holiaduron gyda disgyblion blwyddyn 9 yn Atodiad 1.

Yn dilyn ymweliadau'r ysgolion, trefnwyd gweithdy diwrnod ar gyfer y disgyblion er mwyn casglu syniadau ymarferol a strategol ar ddulliau o ddylanwadu'n gadarnhaol ar eu defnydd iaith. Roedd ymateb y disgyblion i her y Gymraeg ynghyd â'u syniadau strategol yn ysbrydoli a dylid sicrhau bod model o'r fath, gyda disgyblion yn ei arwain, yn rhan greiddiol o strategaeth iaith gymdeithasol Gwynedd yn y sector uwchradd.

Rhaid canmol Cyngor Gwynedd am ei benderfyniad i fynd i'r afael â'r mater pwysig hwn a hynny ar lefel awdurdod addysg a sir gyfan. Drwy gynllunio cyfannol gellid sicrhau gweithredu cynhwysfawr wedi ei dargedu'n benodol i weld canlyniadau cadarnhaol a fydd yn parhau i ddatblygu dinasyddion dwyieithog cyflawn i'r dyfodol.



# Eitem 11

<b>CYFARFOD:</b>	<b>PWYLLGOR IAITH</b>
<b>DYDDIAD:</b>	<b>MEHEFIN 18 2015</b>
<b>TEITL:</b>	<b>PENODIADAU PWYLLGOR SAFONAU</b>
<b>AWDUR:</b>	<b>PENNAETH GWASANAETHAU CYFREITHIOL</b>
<b>PWRPAS AR YR ADRODDIAD:</b>	<b>ADRODD AR DREFN PENODI AELODAU PWYLLGOR SAFONAU</b>

## **Cefndir**

Mae Pwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd yn bwyllgor statudol a sefydlwyd yn wreiddiol dan ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000.

Mae naw aelod o'r Pwyllgor :

- 3 – aelod etholedig Cyngor Gwynedd
- 5 - aelod annibynnol
- 1 – aelod cyngor cymuned

Mabwysiadwyd y gyfundrefn ar gyfer penodi aelodau i'r Pwyllgor Safonau gan y Cyngor ar 1 Mawrth 2012 ( Atodiad 1) . Fodd bynnag mae'r drefn o benodi aelodau annibynnol yn seiliedig ar gyfundrefn statudol dan Orchymyn Pwyllgorau Safonau ( Cymru) 2001.

## **Penodi**

Mae'r rheoliadau yn darparu bod rhaid hysbysebu mewn dim llai na 2 bapur newydd sydd â chylchrediad o fewn yr ardal. Caniateir hysbysebu mewn papur newydd y mae'r awdurdod yn ei gyhoeddi yn ychwanegol at hyn. Er enghraifft yn y cylch diweddaraf gosodwyd yr hysbysebion canlynol:

- Hysbyseb yn y Cambrian News, Herald a'r Bangor Mails –
- Gwefan Cyngor Gwynedd
- Tudalennau Facebook a Twitter y Cyngor

Yn ôl y rheoliadau rhaid sefydlu panel ar gyfer cynnal cyfweiliadau fydd yn gwneud argymhellion i'r Cyngor ynglŷn a phenodi aelodau. Er fod y penodiad yn nwylo'r Cyngor mewn sefyllfaoedd o'r fath mae elfen uchel o ymddiriedaeth yn y Panel i adnabod ymgeiswyr a gwneud argymhellion. Yn arferol cyflwynir

adroddiad i'r Cyngor yn adrodd ar argymhellion y panel penodi. Mae adegau, ac er ceisir osgoi hyn, ble mae'r amserlen penderfynu yn golygu y bydd yr enwau'r ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu adrodd ar lafar.

Mae gofynion penodol ynglŷn ag aelodaeth Pwyllgor Safonau sydd yn golygu nad yw pob un sydd a diddordeb yn gymwys. O safbwynt ceisiadau am aelodau annibynnol, er enghraifft ni chaniateir i unrhyw un sydd yn aelod neu swyddog na chyn aelod neu swyddog o'r awdurdod yma gael ei benodi/phenodi i'r Pwyllgor.

Mae'r her yn y penodi o safbwynt cael aelodau sydd yn gymwys i wneud y gwaith. Rhaid dwyn mewn cof y bydd y pwyllgor ar adegau yn ymdrin â materion heriol ac anodd o safbwynt penderfyniadau felly mae cyfrifoldebau penderfynu eithaf ar eu hysgwyddau. Mae'r Panel felly yn gorfod gweithredu eu cyfrifoldebau o fewn y meini prawf a osodwyd gan y Cyngor. Drwy'r drefn yma penodwyd ystod o aelodau annibynnol, rhai yn Gymraeg eu hiaith a rhai yn ddi-Gymraeg.

### **Argymhelliad**

### **Fod y pwyllgor yn derbyn y wybodaeth**

### **Penodiadau i'r Pwyllgor Safonau - Meini Prawf**

Bydd yn rhaid i ymgeiswyr ddangos annibyniaeth ac amhleidioldeb wrth gynorthwyo'r Pwyllgor Safonau mewn hybu, cynnal a gwella trefniadau moesegol o fewn Cyngor Gwynedd a chynghorau cymuned/tref y sir.

Bydd gwaith y Pwyllgor yn golygu bod yn rhaid i'r aelodau feddu ar y nodweddion a sgiliau canlynol:-

- Sgiliau gwrando;
- Y gallu i ddeall a phwyso tystiolaeth;
- Y gallu i ffurfio barn wrthrychol a'i hesbonio drwy gyfeirio at y dystiolaeth;
- Sgiliau gweithio mewn tîm;
- Parchu pobl eraill a dealltwriaeth o ystyriaethau gwahaniaeth;
- Disgresiwn;
- Uniondeb Personol.

### **Meini Prawf ychwanegol i aelodau annibynnol**

Nid oes angen gwybodaeth fanwl o lywodraeth leol er y byddai o fantais pe bai diddordeb gan ddarpar ymgeiswyr mewn materion sy'n berthnasol i fywyd a gwasanaethau cyhoeddus. Yn ogystal, y mae'n rhaid i aelodau annibynnol:-

- Fod yn gymwys i gael eu dethol yn aelod annibynnol.
- Fod yn uchel eu parch o fewn y gymuned:
- Allu rhoi'r amser angenrheidiol i'r dyletswyddau a bod ar gael ar fyr rybudd;
- Allu darparu dau dystlythyr.

Ystyrir y gallu i siarad Cymraeg yn fantais a chymerir i ystyriaeth cadw cydbwysedd sgiliau, rhinweddau a medrusrwydd ar y Pwyllgor, yn ogystal â'r angen i gynrychioli'r gymuned yn gyfan gwbl a chyflawni cynrychiolaeth ddaearyddol.

# Eitem 12

<b>CYFARFOD:</b>	<b>PWYLLGOR IAITH</b>
<b>DYDDIAD:</b>	18 MEHEFIN 2015
<b>TEITL:</b>	CWYNION IAITH
<b>AWDUR:</b>	GWENLLIAN MAIR WILLIAMS SWYDDOG DATBLYGU IAITH GWYNEDD (GWEITHLE)
<b>PWRPAS YR ADRODDIAD</b>	CYFLWYNO'R CWYNION DIWEDDARAF I'R PWYLLGOR.

<b>DYDDIAD</b>	<b>CWYN</b>	<b>YMATEB.</b>
<b>Ebrill 2015</b>	Cwyn a gyfeiriwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd ynghylch arwydd uniaith Saesneg wedi ei osod yn un o feysydd parcio Cyngor Gwynedd, yn agos at y twnnel yng Nghaernarfon.	Y gwasanaeth perthnasol wedi ymchwilio i'r mater a chanfod bod yr arwydd Cymraeg wedi diflannu dros nos (wedi ei ddwyn o bosib). Roedd oedi wedi bod cyn gosod arwydd newydd o ganlyniad i absenoldeb salwch y swyddog cyfrifol ond trefnwyd bod y cwmni arwyddion yn mynd i osod arwydd newydd cyn diwedd yr wythnos. Cysylltwyd â Swyddfa'r Comisiynydd i roi eglurhad a chadarnhad bod y mater wedi cael ei ddatrys.
<b>Ebrill 2015</b>	Cwyn gan aelod o'r cyhoedd am iddynt dderbyn gohebiaeth uniaith Saesneg gan Dŵr Cymru. Roedd y llythyr gan Dŵr Cymru yn deillio o ohebiaeth gan Gyngor Gwynedd, felly roedd yr achwynydd yn cwestiynu iaith yr ohebiaeth wreiddiol gan Gyngor Gwynedd.	Holwyd y gwasanaeth perthnasol ac anfonwyd copi o'r ohebiaeth wreiddiol at yr achwynydd fel tystiolaeth bod y Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r Cynllun Iaith, ac wedi anfon gohebiaeth dwyieithog at Dŵr Cymru.
<b>Ebrill 2015</b>	Cwyn gan Swyddog o'r Adran Addysg am lythyr a dderbyniodd gan Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru gyda Chymraeg gwallus ac annealladwy.	Cysylltodd y Swyddog yn uniongyrchol â swyddfa'r Tribiwnlys i dynnu eu sylw at y gwallau a derbyniwyd llythyr diwygiedig o fewn yr wythnos.
<b>Ebrill 2015</b>	Cwyn gan aelod o'r cyhoedd am dderbyn ffurflen pleidlais bost uniaith Saesneg	Cyfeiriwyd y mater at yr Uwch Reolwr sydd â chyfrifoldeb am yr Uned Etholiadol. Eglurwyd fod y broses o gofrestru ar-lein yn digwydd drwy wefan ganolog y llywodraeth yn Llundain. Os gofynnir am ffurflen i gael pleidlais bost, fe'i hanfonir yn

		uniongyrchol o'r wefan fel atodiad i'r e-bost cydnabod, fel y mae'n ymddangos y digwyddodd yma. Nid y Cyngor felly sydd yn gyfrifol am ei hanfon. Ar y llaw arall, os derbyniwn gais yn uniongyrchol, yna anfonir ein ffurflen ddwyieithog at yr ymgeisydd.
<b>Mai 2015</b>	Cwyn gan aelod o'r cyhoedd ynglŷn â Swyddog Gorfodaeth Parcio di-Gymraeg	Cyfeiriwyd y mater at swyddog yn yr Adran Rheoleiddio, a bu iddynt ymddiheuro ac ymateb i gwyn yr achwynydd gan ddileu dyled y tocyn parcio yn sgil amgylchiadau arbennig yr achwynydd ar y pryd.
<b>Mehefin 2015</b>	Cwyn gan Gynghorydd lleol am arwyddion uniaith Saesneg ar Ffordd y Coleg, Bangor	Cyfeiriwyd y mater at swyddog yn yr Adran Briffyrdd. Wedi iddo gysylltu gyda'r contractwyr, cytunodd y cwmni i symud yr arwyddion. Nid oeddynt wedi derbyn caniatâd Cyngor Gwynedd i osod yr arwyddion.